

Strategaeth Ehangu Cyfranogiad Prifysgol Caerdydd 2020-25

1. Ein gweledigaeth

1.1 Ym Mhrifysgol Caerdydd, rydym yn credu yn nerth addysg i drawsnewid bywydau, ac yn credu na ddylai amddifadedd economaidd-gymdeithasol, cyfraddau cyfranogi isel mewn addysg brifysgol, anfantais addysgol, nac aflonyddwch addysg fod yn rhwystrau i fyfyrwyr gyflawni eu potensial academaidd llawn a chael mynediad at yrfaedd ystyrlon a boddhaus.

1.2 Mae ein gweledigaeth yn ddeublyg:


- Bod pob myfyriwr waeth beth fo'i gefndir neu ei brofiad personol, yn cael ei ysbrydoli i ystyried addysg uwch fel opsiwn cyraeddadwy, ac y gallant astudio, llwyddo a ffynnu ym Mhrifysgol Caerdydd a thu hwnt. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i gefnogi a dathlu amrywiaeth a chreu cymuned agored a chynhwysol a rhoi myfyrwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn.
- Bod myfyrwyr y strategaeth ehangu cyfranogiad, oherwydd eu cefndir, eu sgiliau a'u profiadau personol ac addysg ym Mhrifysgol Caerdydd yn golygu eu bod yn ffynnu ac yn datblygu i ddod yn weithwyr proffesiynol ac arweinwyr cymdeithas y dyfodol.

1.3 Mae'r strategaeth hon yn esbonio ein nodau y n [Y Ffordd Ymlaen 2018-23](#), i fod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd. Rydym am fod yn rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuol yn addysgol, a chael ein hysgogi gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym hefyd am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd. Mae'n dwyn ein holl ymrwymadau ynghyd yn [is-strategaethau Y Ffordd Ymlaen](#), Is-Strategaeth Addysg a Myfyrwyr, ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) a'r Strategaeth Iaith Gymraeg (yn amodol ar gymeradwyaeth yn 2020-21) sy'n ymwneud ag ehangu cyfranogiad. Yn ogystal, bydd ein Cynllun Ffioedd a Mynediad blynyddol yn cyd-fynd â'r strategaeth hon.

1.4 Mae gan ein strategaeth Ehangu Cyfranogiad bedwar prif nod:

1. Ymgysylltu â phobl o bob cenedlaeth a'u hysbrydoli i ystyried addysg uwch fel opsiwn realistig a chyraeddadwy.
2. Denu a recriwtio myfyrwyr sydd â photensial academaidd, waeth beth fo'u cefndir neu'u profiad personol.
3. Galluogi pobl i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r Brifysgol a meithrin profiad myfyriwr rhagorol a chefnogol.
4. Meithrin ac annog dyfodol hyderus a llwyddiannus i bawb.

Ehangu Cyfranogiad ym Mhrifysgol Caerdydd



2. Ein cwmpas

2.1 Mae'r term 'ehangu cyfranogiad' yn cynrychioli unigolion o ystod eang o grwpiau cymdeithasol a demograffig. Isod, rydym wedi diffinio'r grwpiau hynny a fydd yn cael sylw neilltuol fel rhan o'n strategaeth sefydliadol; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw hyn yn cynrychioli pob myfyriwr sydd ddim yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd (neu AU yn fwy cyffredinol), na phob un o'r rheini a fyddai'n elwa o'n gwasanaethau addysg ac academiaidd a chymorth.

2.2 Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn blaenoriaethu, ac mae'r cwmpas canlynol yn seiliedig ar ganllawiau gan ein cyrff rheoleiddio ar ddiffiniadau ehangu cyfranogiad, gwybodaeth ddata, a strategaethau a pholisïau presennol. Byddwn yn adolygu'r cwmpas hwn yn flynyddol gan ddefnyddio data a pherfformiad cyfredol, a gwybodaeth gyd-destunol ehangach.

2.3 Mae'r grwpiau a ystyrir yn y cwmpas ar gael yn [Atodiad 1](#).

2.4 Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg. Mae gwireddu'r uchelgeisiau hyn yn golygu dull integredig, ac mae ein hymrwymadau i'r Gymraeg wedi'u hymgorffori yn y Ffordd Ymlaen, yn ein Cenhadaeth Ddinesig, ac yn fwy diweddar yn y Strategaeth Iaith Gymraeg sydd newydd ei chyhoeddi, Yr Elwad/Embrace it. Mae'r strategaeth olaf hon yn cyflwyno egwyddorion, targedau a swyddogaethau allweddol ein gwaith yn y maes hwn, ac mae'n cynnwys manylion am sut mae ehangu cyfranogiad yng nghymuned Gymraeg y Brifysgol hefyd yn rhan annatod o'n hymagwedd gynlluniedig.

2.5 Bydd cwmpas ein Strategaeth Ehangu Cyfranogiad yn cael ei hadolygu fel rhan o broses werthuso flynyddol y strategaeth.

3. Ein Gweithgaredd

3.1 Byddwn yn sicrhau bod llwybr cefnogaeth clir ar gyfer myfyrwyr y strategaeth ehangu cyfranogiad, o'r eiliad y maen nhw'n ymgysylltu â Phrifysgol Caerdydd am y tro cyntaf tan eu bod yn graddio o'n Prifysgol ac ymlaen at gyflogaeth neu astudiaethau pellach.

3.2 Mae ein strategaeth ehangu cyfranogiad yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu sy'n amlinellu ac yn monitro ein holl weithgareddau ehangu cyfranogiad yn fanwl. Mae'r crynodeb isod yn tynnu sylw at weithgaredd newydd ac estynedig.

4. Nodau ac Amcanion ein Strategaeth

Nod 1 - Ymgysylltu â phobl o bob cenhedlaeth a'u hysbrydoli i ystyried addysg uwch fel opsiwn realistig a chyraeddadwy.

Canlyniad a Fwriedir: *Mae addysg uwch yn cael ei hystyried yn opsiwn hygrych a chyraeddadwy i bob aelod o gymdeithas.*

Byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu ein hymgysylltiad ag ysgolion cynradd ac uwchradd, yn unol ag agenda ein cenhadaeth ddinesig.
- Parhau i weithio ar y cyd er mwyn datblygu cyfleoedd addysgol i fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys parhau â phartneriaethau pwysig fel Ymestyn yn Ehangach a Sioe Deithiol Addysg Uwch.
- Ymestyn ein rhaglen 'Mynediad at Broffesiynau' i gyrraedd mwy o fyfyrwyr ac ehangu'r cynllun i ymgorffori gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, y gyfraith, deintyddiaeth a phynciau STEM.
- Ehangu ein *cynllun Camu 'Mlaen* blaenllaw i gyrraedd mwy o fyfyrwyr coleg a disgyblion y chweched dosbarth ar draws De Ddwyrain Cymru. Byddwn yn cyflwyno darpariaeth ddigidol ar gyfer y rhai na allant deithio i Gaerdydd. Bydd ffrydiau pwnc yn canolbwyntio ar chwe maes dysgu a phrofiad Llywodraeth Cymru: y celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg a rhifedd, a gwyddoniaeth a thechnoleg.
- Gweithio gyda'r bartneriaeth *Ymestyn yn Ehangach* i ddatblygu rhaglen o weithgareddau i gefnogi gofalwyr ifanc.
- Parhau i adeiladu ar y rhaglen *Dyfodol Hyderus* ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, gan ddarparu mentora a chefnogaeth i annog pobl sy'n gadael gofal rhwng 16 a 25 oed i wneud cynnydd. Byddwn yn gweithio i ddatblygu'r rhaglen i ddarparu llwybrau er mwyn gwneud cynnydd o'r ddarpariaeth cyn-16 a gynigir drwy'r bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach hyd at y brifysgol a thu hwnt.
- Parhau i gynnal y rhaglen Darganfod: cynllun pontio i AU ar gyfer pobl ifanc ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth.
- Parhau i weithio ar y cyd â'r bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach i dyfu a datblygu ein rhaglen gymunedol *'Byw'n Lleol, Dysgu'n Lleol'* ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion a chynyddu cyfraddau'r bobl sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Llwybrau at Radd, yn ogystal â chyfleoedd dysgu Lefel 4.

- Nodi cyfleoedd pellach i gefnogi cyn-filwyr sydd am gymryd rhan mewn addysg uwch, drwy weithio mewn partneriaeth ac adeiladu ar y gefnogaeth sydd eisoes ar gael.
- Datblygu dull cyfunol o ehangu cyfranogiad, gan gynnig cyfleoedd ymgysylltu corfforol a digidol, a thrwy hynny hyrwyddo hygyrchedd a chefnogi myfyrwyr na allant deithio i Gaerdydd yn hawdd.
- Cyflwyno bwrsariaethau teithio i fyfyrwyr y strategaeth Ehangu Cyfranogiad i fynd i ddiwrnodau agored a chyfweliadau Prifysgol Caerdydd.

Nod 2 - Denu a recriwtio myfyrwyr, waeth beth yw eu cefndir neu'u profiad personol sydd â'r potensial i gyflawni pethau yng Nghaerdydd

Canlyniad a Fwriedir: *Bydd myfyrwyr addysg uwch yn meddwl y gall Prifysgol Caerdydd eu cefnogi i wireddu eu potensial.*

Byddwn yn:

- Ceisio ymestyn ein rhaglenni llwybrau at radd, a gweithio i gynyddu nifer y prentisiaethau gradd a gynigiwn.
- Treialu rhaglen '*Yn ôl i'r Ysgol*' i gyrraedd ysgolion a cholegau sydd â chyfrannau uchel o fyfyrwyr ehangu cyfranogiad nad yw Caerdydd yn rhyngweithio â nhw eto. Bydd myfyrwyr presennol Caerdydd a 'graddedigion' Camu 'Mlaen yn dychwelyd i'w cyn-ysgolion a'u colegau chweched dosbarth i rannu eu profiadau o fywyd prifysgol a gweithredu fel mentor i ddisgyblion yn yr ysgol sydd am wneud cais am brifysgol.
- Parhau i ymgorffori ein polisi derbyn cyd-destunol amlamrywedd, yn seiliedig ar ehangder o ddangosyddion amddifadedd [\[1\]](#).

Nod 3 - Cymorth a llwyddiant o ran pontio - sicrhau cyfnod pontio llwyddiannus i'r Brifysgol a meithrin profiad myfyriwr rhagorol a chefnogol

Canlyniad a Fwriedir: *Cefnogir pob myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd yn llwyddiannus o ran eu cyfnod pontio i addysg uwch ac yn ystod eu hamser ynddi.*

Byddwn yn:

- Datblygu rhaglen bontio sy'n darparu cymorth cyfannol ar gyfer myfyrwyr ehangu cyfranogiad o bryd derbynnir cynnig hyd at ddiwedd eu blwyddyn gyntaf yn y brifysgol.
- Nodi dysgwyr ehangu cyfranogiad yn gynnar yn eu taith ymgeisio, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at gefnogaeth a chynghor i gyflawni'r cyfnod pontio i Addysg Uwch yn llwyddiannus.
- Lansio rhaglen bontio breswyl, sy'n ceisio paratoi myfyrwyr yn well ar gyfer bywyd prifysgol. Caiff pob ymgeisydd sy'n gymwys i gael cynnig mewn cyd-destun, gan gynnwys y rhai sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglenni Camu 'Mlaen a Mynediad at Broffesiynau, ei wahodd i

gymryd rhan yn y rhaglen, a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau academiaidd allweddol yn ogystal â chyfeirio pobl yn gynnar at wasanaethau allweddol yn adran Cymorth a Lles Myfyrwyr.

- Gwella ein darpariaeth ar gyfer myfyrwyr aeddfed, gan gydnabod y ddarpariaeth barhaus o ddigwyddiad sefydlu myfyrwyr aeddfed, gan gydnabod y gall eu hanghenion fod yn wahanol i anghenion ymadawyr ysgol.
- Sicrhau bod cyfleoedd i fagu hyder drwy rwydweithiau cymorth; cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu sgiliau mewn dysgu digidol, a gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd.
- Adeiladu gweithdy 'deall eich carfan' fel rhan o'n DPP staff gwasanaethau academiaidd a phroffesiynol.
- Gwella ein cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer myfyrwyr ehangu cyfranogiad drwy ein prosiectau mentora cymheiriaid.
- Parhau i gynnig pecynnau cymorth ariannol ar ffurf ysgoloriaethau, bwrsariaethau a chyngor arian yn seiliedig ar anghenion.
- Gwella ein darpariaeth sgiliau academiaidd ar gyfer myfyrwyr Ehangu Cyfranogiad drwy'r ddarpariaeth sgiliau astudio gan fod hyn yn cefnogi'r cyfnod pontio i'r Brifysgol a'r cyfnod ynddi.
- Cwblhau a gweithredu ein Cynllun Gweithredu Bwlch Dyfarnu BAME gyda'r nod o ddileu'r bwllch cyrhaeddiad BAME i ddim a bwllch <5% ar draws holl raglenni'r Brifysgol erbyn 2025.
- Defnyddiwch Ddadansoddeg Dysgwyr i ddatblygu dangosfyrddau data erbyn 2021 i ni ddysgu mwy am ein poblogaeth myfyrwyr, a'u hymgysylltiad â'u dysgu eu hunain, datblygu strategaethau i gefnogi myfyrwyr ehangu cyfranogiad; a gwella canlyniadau myfyrwyr.
- Nodi a gweithredu mesurau i'w cymryd i liniaru effaith allgáu digidol ar ddysgu myfyrwyr.
- Sicrhewch fod ein cwricwlwm yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, drwy sefydlu a gweithredu prosiect cwricwlwm cynhwysol sefydliadol.

Nod 4 - Dyfodol Hyderus a Llwyddiannus - meithrin ac annog dyfodol hyderus a llwyddiannus i bawb

Canlyniad a fwriedir: *Rydym am i'n holl fyfyrwyr gael cyfle cyfartal i lwyddo yn eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.*

Byddwn yn:

- Darparu rhaglen datblygu gyrfa hygyrch bwrpasol sydd ar gael i bob myfyriwr ehangu cyfranogiad, sy'n dod i'r brifysgol drwy bolisi derbyn mewn cyd-destun, gan gynnwys hyfforddiant gyrfa, profiad gwaith, gweithdai sgiliau a rhwydweithio gyda chyflogwyr.
- Datblygu'r cynllun Camu 'Mlaen ymhellach i gefnogi'r myfyrwyr hynny sydd wedi symud ymlaen o'r rhaglen i astudio yng Nghaerdydd. Bydd 'Camu 'Mlaen Ymhellach' yn cefnogi myfyrwyr ar gyfer bywyd graddedigion drwy raglen hyfforddi wedi'i theilwra a chyfleoedd profiad gwaith â thâl, gan gynnwys y rhaglen yn ôl i'r ysgol.
- Parhau i ddatblygu'r rhaglen Mynediad at Broffesiynau i gefnogi myfyrwyr presennol sydd am ddechrau gyrfaoedd penodol sydd â thraddodiad isel o ddenu myfyrwyr ehangu cyfranogiad.
- Datblygu rhaglen intern graddedig ehangu cyfranogiad, gan gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr ehangu cyfranogiad ar gyfer y cyfnod pontio i gyflogaeth.
- Parhau i ddatblygu, cefnogi a hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd byd-eang, o ran hyd, lleoliad a math y gweithgaredd, sy'n hygyrch i'n poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr, ac yn briodol ar eu cyfer, gan gynnwys cyfleoedd rhyngwladol yn benodol ar gyfer myfyrwyr ar y rhaglenni Camu 'Mlaen Ymhellach a Phontio.
- Sicrhau parhad y Cynllun Bwrsariaeth Cyfleoedd Byd-eang i sicrhau hygyrchedd ariannol cyfleoedd rhyngwladol.
- Parhau â gwaith y fwsariaeth profiad gwaith ehangu cyfranogiad i gefnogi'r myfyrwyr hynny sy'n ymgymryd â lleoliad profiad gwaith yn y DU rhwng 6-12 mis.

5. Ein partneriaid

5.1 Byddwn yn parhau i weithio gydag ystod o bartneriaid strategol i gefnogi ein gweithgareddau ehangu cyfranogiad. Mae ein partneriaid yn cynnwys:

- Ymestyn yn Ehangach
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Sioe Deithiol Addysg Uwch)
- Rhwydwaith Seren
- Prosiect Grŵp Russell ac Ehangu Mynediad
- Ymddiriedolaeth Sutton
- Consortia Addysg Cymraeg
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Ymddiriedolaeth y Gofalwyr
- Y Cyfamod â'r Lluoedd Arfog
- Stand Alone
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
- Bwrdd Iechyd y Brifysgol (UHB)
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW)

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein partneriaid ar dudalennau gwe'r Brifysgol yma [Link to be added once finalised].

5.2 Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd ymhellach er mwyn cefnogi ehangu cyfranogiad mewn partneriaeth ag eraill.

6. Creu Cymuned Prifysgol sy'n Cefnogi Ehangu Cyfranogiad

6.1 Datblygwyd ein strategaeth gan ein staff a'n myfyrwyr, gyda mewnbwn gan/wedi'i lywio gan anghenion a gofynion ein partneriaid a'n rheoleiddwyr.

6.2 Byddwn yn adeiladu rhwydwaith o academyddion, staff a myfyrwyr gwasanaethau proffesiynol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr, a fydd yn cynghori, cyfrannu a llunio strategaeth a gweithgareddau ehangu cyfranogiad y Brifysgol, gan ddod â mewnelediad am bynciau penodol i'n rhaglenni ymgysylltu. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd fel cymuned ddysgu i rannu tystiolaeth o arfer gorau o bob rhan o'r sector a thu hwnt.

6.3 Byddwn yn cefnogi ein Hysgolion Academaidd i arloesi ac ymgysylltu â myfyrwyr ehangu cyfranogiad ac agendâu, gan gynnwys darparu cyfleoedd i dreialu a phrofi mentrau newydd gyda'r nod o gadw a chefnogi myfyrwyr a sicrhau eu bod yn llwyddo. Byddwn hefyd yn datblygu dangosfyrddau o boblogaethau myfyrwyr ar lefel Ysgol a rhaglen i sicrhau bod ein hysgolion academaidd yn ymwybodol o amrywiaeth eu corff myfyrwyr. Byddwn yn cyflwyno arweinwyr academaidd ehangu cyfranogiad ar gyfer pob Coleg ac Ysgol.

6.4 Mae ein myfyrwyr yn allweddol ar gyfer strategaeth ehangu cyfranogiad lwyddiannus a deinamig. Byddwn yn gweithio gyda rhwydwaith o gynghorwyr myfyrwyr, o ystod o gefndiroedd addysgol, i lywio a siapiau ein gweithgareddau, ac i'n herio yn ein huchelgais i fod yn brifysgol i bawb.

7. Gwireddu ein Strategaeth

7.1 Bydd gweithredu'r Strategaeth hon yn llwyddiannus yn dibynnu ar alluogwyr o bob rhan o'r Brifysgol a thu hwnt.

Byddwn yn:

- Meddu ar gynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud; pryd y byddwn yn gwneud hynny; pwy fydd yn gwneud hyn a beth fydd ein mesurau llwyddiant. Bydd y cynllun hefyd yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ein hymrwymiaidau.
- Datblygu cynllun ymgysylltu a chyfathrebu i'r Brifysgol er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a pherchnogaeth o'r strategaeth ymhlith ein staff; hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfle i'n myfyrwyr, ac i rannu ein huchelgeisiau; dathlu ein llwyddiannau; a hyrwyddo'r hyn a wnawn gyda'n partneriaid, ein rheoleiddwyr a'r cyhoedd.
- Sefydlu fframwaith llywodraethu ar gyfer y strategaeth sy'n cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau eraill y Brifysgol; gan sicrhau atebolrwydd am gyflawni ac sy'n ein galluogi i olrhain ein hymrwymiaidau; a fydd yn fforddio gweledd ac arweinyddiaeth gref i'r strategaeth.
- Meddu ar setiau data cadarn y gallwn gymryd camau gweithredu gyda thargedau a gwerthuso'r gweithgaredd yr ydym yn ei wneud.

8. Monitro a Gwerthuso ein Gweithgaredd

8.1 Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso ein gweithgareddau ehangu cyfranogiad yn barhaus, gan feincnodi perfformiad y Brifysgol yn erbyn sector Cymru a'r DU ac yn dadansoddi ein data recriwtio, cadw a dilyniant ar gyfer myfyrwyr ehangu cyfranogiad.

Bydd ein gwaith o fonitro a gwerthuso ein gweithgaredd yn cynnwys:

- Datblygu model gwerthuso ac effaith ehangu cyfranogiad, gan ddefnyddio dulliau ymchwil cadarn i sicrhau ein bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ehangu cyfranogiad ar draws cylch bywyd myfyrwyr.
- Gwerthuso ein rhaglenni ymgysylltu ac ysbrydoli, mewn perthynas â fframwaith y *Network of Evaluating and Research University Participation Interventions (NERUPI)* a symud ymlaen i addysg uwch.
- Cylch archwilio rheolaidd yn erbyn ein gweithgareddau ehangu cyfranogiad.
- Creu grŵp cynghori ehangu cyfranogiad gydag aelodau allanol, a myfyrwyr, i'n cefnogi a'n herio.

Atodiad 1 - Cwmpas y Strategaeth Ehangu Cyfranogiad

Mae'r term 'ehangu cyfranogiad' yn cynrychioli unigolion o ystod eang o grwpiau cymdeithasol a demograffig.

Isod, rydym wedi diffinio'r grwpiau hynny¹ fydd yn cael sylw neilltuol fel rhan o'n strategaeth sefydliadol; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw hyn yn cynrychioli pob myfyriwr sydd ddim yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd (neu AU yn fwy cyffredinol), na phob un o'r rheini a fyddai'n elwa o'n gwasanaethau addysg ac academaidd a chymorth.

Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn blaenoriaethu, ac mae'r cwmpas canlynol yn seiliedig ar ganllawiau gan ein cyrff rheoleiddio ar ddiffiniadau ehangu cyfranogiad, gwybodaeth ddata, a strategaethau a pholisïau presennol. Byddwn yn adolygu'r cwmpas hwn yn flynyddol gan ddefnyddio data a pherfformiad cyfredol, a gwybodaeth gyd-destunol ehangach.

Profiadau Unigol	<ul style="list-style-type: none">• Wedi profi gofal (os ydych wedi bod mewn gofal am 3 mis neu fwy ar unrhyw adeg)• Cyn-filwr o'r Lluoedd Arfog• Ceisiwr lloches / ffoadur
Nodweddion Unigol	<ul style="list-style-type: none">• Oedran – aeddfed• Anabledd (gan gynnwys awtistiaeth)• BAME• Affro-Caribiaidd Du a Gwryw• Gwyn a Gwryw a mynegai amddifadedd lluosog• Myfyrwyr rhan-amser• Cyfrwng Cymraeg
Nodweddion Teuluol	<ul style="list-style-type: none">• Cyfrifoldebau gofalu• Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o'u teulu• Enillion blynyddol gros yr aelwyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau• Rhieni heb eu haddysgu hyd at lefel Addysg Uwch
Nodweddion Ysgol	<ul style="list-style-type: none">• Data Cymraeg a Saesneg 6ed dosbarth• Cyfraddau prydau ysgol am ddim Cymru a Lloegr (FSM)
Nodweddion Cymdogaeth	<ul style="list-style-type: none">• Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 40 (cwintel 2)• Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 20 (cwintel 1)• POLAR4• Mynegai Amddifadedd Lluosog Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

¹ Myfyrwyr cartref